# Cynllun Iaith Gymraeg

Heddlu Gogledd Cymru a
Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

2013

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**

NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg ar Fehefin 17, 2013.

# 1. CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993 a Mesur Iaith Gymraeg (Cymru ) 2011. Mae’r ddeddfwriaeth yr un mor berthnasol i’r ddau sefydliad ac yn rhwymo’r ddau i sicrhau darpariaeth iaith briodol ym mhob agwedd ar wasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru.

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg ar y 4ydd Mehefin 1997. Cafodd y cynllun iaith diwygiedig gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mehefin 2006. Fersiwn diwygiedig a diweddaredig o Gynllun 2009 yw’r ddogfen hon.

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

I ddibenion y Cynllun hwn mae 'staff' yn cyfeirio at swyddogion heddlu, staff yr Heddlu, swyddogion cefnogi cymuned yr Heddlu, swyddogion gwirfoddol a gwirfoddolwyr.
Mae llwyddiant y Cynllun yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Caiff y Cynllun ei gydlynu a'i fonitro gan weithgor bychan sy’n cyfarfod bob chwarter i dderbyn adroddiadau ar weithrediad y Cynllun, i ddadansoddi cwynion ac ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

# 2. EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Mae ein dull strategol o ymdrin â’r defnydd o’r Gymraeg a'r Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- **statws cydradd i’r Gymraeg a'r Saesneg**
- **rydym yn anelu tuag at fod yn sefydliad dwyieithog**

Yn unol â’n cyfrifoldebau i’n cymunedau a’n dyletswyddau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn egluro sut yr ydym yn gweithio tuag at sicrhau ein bod yn cynnig dewis iaith yn narpariaeth ein gwasanaethau ac yn ein prosesau mewnol.

Rydym yn gweithio gyda’r partneriaid perthnasol i sicrhau y cynigir dewis iaith dilys i’r rhai hynny sy’n dod i gysylltiad â’r System Gyfiawnder.

Bydd gweithio tuag at wireddu hyn yn cynnwys y tactegau canlynol:

- **cwblhau’r amcanion a ddynodwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg**
- **hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel iaith fusnes yn y gweithle**
- **gwella gallu dwyieithog yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi staff i ddatblygu a gwneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod gan bawb sy'n ymuno â gwasanaeth yr Heddlu sgiliau Cymraeg sylfaenol pan fyddant yn cael eu penodi.**
- **dynodi anghenion ieithyddol swyddi mewn gwahanol ardaloedd o’r Heddlu**
- **hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o’r Gymraeg pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â ni**
- **cysylltu egwyddorion ansawdd gwasanaeth â darpariaeth dewis iaith i ddefnyddwyr**
- **cynnig gwasanaeth gwybodaeth gwirioneddol ddwyieithog**

Bydd Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn anelu at:

- **Fod yn sefydliadau mwy dwyieithog.**
- **Cynyddu nifer y staff sy’n medru siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a’u hannog i wneud mwy o ddefnydd o’u sgiliau er mwyn cyfrannu tuag sicrhau dewis iaith i’r cyhoedd.**

- Codi ymwybyddiaeth staff presennol a staff newydd ynghylch ymrwymiad yr Heddlu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

- Gweithio tuag at ddenu mwy o geisiadau gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o gymunedau Cymraeg i ymuno â HGC fel swyddogion neu staff yr Heddlu. Rhan o hyn fyddai meithrin mwy o gysylltiad â siaradwyr Cymraeg a chynrychiolwyr grwpiau iaith Gymraeg yn ein cymunedau.

- Parhau â strategaeth sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff gan gynnwys y rhai hynny yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gallu dangos o leiaf cwrteisi ieithyddol sylfaenol cyn ymuno, yn ychwanegol at ganolbwyntio ar staff presennol sy'n cael cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Byddwn yn cynorthwyo darpar staff i gyrraedd y lefelau angenrheidiol drwy ddarparu adnoddau 'hunan addysgu' ac yn eu cyfeirio hefyd at gyfleoedd am gymorth allanol. Unwaith y bydd staff wedi'u penodi byddant yn cael cynnig rhaglenni hyfforddiant yn ystod oriau dyletswydd i ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg.

- Sicrhau bod gweithrediadau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol mewnol yn llwyr gydnabod ac yn ystyried gallu yn y Gymraeg fel sgil, ochr yn ochr â sgiliau angenrheidiol eraill.

- Chwilio am gyfleoedd i hybu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a gweithdrefnau gyda'r Swyddfa Gartref, AHEM a heddluoedd eraill Cymru.

- Manteisio ar bob cyfle i ddehongli ein hymrwymiad i'r Gymraeg fel rhan o'n hymdrechion i gydnabod Hil ac Amrywiaeth yng Nghymru.

# 3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

**Polisïau a Mentrau Newydd**

**3.1.** Bydd Prif Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb iaith yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar waith yr Heddlu a bod Rhanbarthau ac Adrannau yn gweithredu yn unol â'r Cynllun.

**3.2.** Bydd unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisïau newydd sy'n cael eu mabwysiadu gan yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn. Pan fydd polisïau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hadolygu manteisir ar y cyfle i roi ystyriaeth lawn i anghenion siaradwyr Cymraeg a disgwyliadau'r Cynllun hwn.

Mae cyfeiriadau at y Cynllun hwn mewn cynlluniau, mentrau a pholisïau perthnasol eraill. Bydd yr Heddlu, dan oruchwyliaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, hefyd yn asesu effeithiau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter newydd wrth baratoi ac adolygu'r polisi neu fenter.

**3.3.** Bydd adolygu a chyflwyno polisïau a mentrau newydd yn galluogi'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaeth a symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Manteisir ar bob cyfle i symud yn nes at gyflawni egwyddorion cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr egwyddorion a ddisgrifir yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob polisi a menter newydd a weithredir gan yr Heddlu neu ar ei ran.

**3.4.** Mae Adran Gwasanaethau Iaith yr Heddlu yn gyfrifol am hyrwyddo materion iaith Gymraeg, darparu gwasanaethau cefnogi perthnasol a monitro cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ledled yr Heddlu. Mae'r adran hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor i reolwyr a staff. Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddynodi'r angen am unrhyw newidiadau i'r Cynllun a chyflwyno'r adroddiadau angenrheidiol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg yr Heddlu yw'r pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r Cynllun a'i weithrediad.

**3.5.** Os bydd unrhyw bolisïau neu fentrau a allent o bosibl effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu ar Gynllun unrhyw sefydliad arall, yna ymgynghorir â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ni fydd y Cynllun yn newid heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg.

# 4. CYFLWYNO GWASANAETH

**4.1.** Wrth gyflwyno ein gwasanaeth plismona, rydym yn cydnabod bod gan siaradwyr Cymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r Heddlu hawl i dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn sylweddoli nad yw pob aelod o staff yn siarad Cymraeg ac felly na allwn, mewn rhai amgylchiadau, ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn wrth ymdrin ag:

a) argyfyngau neu ddigwyddiadau difrifol, neu
b) lle byddai gwneud hynny'n effeithio ar effeithiolrwydd gweithrediadau'r Heddlu i'r graddau bod y lefel yn annerbyniol e.e. gweithrediadau cyfreithiol penodol megis defnyddio offer profi anadl, cynnal stop chwiliadau ayyb.

**4.2.** Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, bydd trefniadau yn bodoli i gysylltu ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Byddwn wedyn yn ailgysylltu â'r aelod o'r cyhoedd ac yn rhoi'r gwasanaeth priodol iddynt.

**4.3.** Pan fyddwn yn ymwybodol o'r cychwyn bod aelod o'r cyhoedd angen gwasanaeth iaith Gymraeg, byddant yn ei gael.

**4.4.** Mewn ymgais i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu hadnabod ym mhob adran/ardal blismona. Bydd staff yn yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn darparu cefnogaeth mewn perthynas â materion cysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn ystod oriau swyddfa.

Bydd yr holl staff yn gyfarwydd â'r camau sydd yn eu lle i weithredu darpariaethau'r polisi.

**4.5. Cymraeg yn y Gweithle**

Mewn gwirionedd mae gallu'r Heddlu i roi gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn dibynnu ar allu a hyder ein staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn gyhoeddus. Un o amcanion y Cynllun Iaith yw 'hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes yn y gweithle'. Y nod yw creu ethos dwyieithog yn y gweithle a fydd yn rhoi mwy o hyder i staff ymarfer a defnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth roi gwasanaeth i'r cyhoedd. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu'r un dewis iaith i'n staff yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Rhan o'r gwaith hwn fydd gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys adnabod cyfleoedd i gyflwyno eitemau sydd angen ymateb personol gan staff, megis arolygon a holiaduron, yn ogystal â phosteri fydd yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau neu ar waliau swyddfeydd, ar fformat dwyieithog.

**4.6.** Mae i'r Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal i'r Heddlu ac i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth gyflawni eu dyletswyddau cyn belled nad yw hynny'n amharu ar effeithlonrwydd cyfathrebiadau mewnol.

**4.7.** Yn unol ag egwyddorion ein Strategaeth Iaith Gymraeg bydd siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn y gwaith.

# 5. SAFONAU GWASANAETH CYMRAEG

**5.1.** Mae gan bob aelod o'r cyhoedd hawl i gyfathrebu â'r Heddlu yn Gymraeg neu yn Saesneg, beth bynnag fo'u dewis.

**5.2.** Wrth ddelio â phartïon eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol h.y. y Llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd yr Heddlu'n sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu mabwysiadu sy'n amlygu dewis iaith unigolyn mewn systemau cyfrifiadurol a ffeiliau.

**5.3. Gwasanaethau Cyfieithu**

Bwriad yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw darparu gwasanaeth cyson a chytbwys o'r un safon yn y ddwy iaith yn ei wasanaeth i'r cyhoedd, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Mae gan yr Heddlu Uned Gyfieithu broffesiynol sy'n rhan o'i Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Mae'r Uned yn cynnig gwasanaeth cyfieithu llawn ynghyd ag arweiniad i bob aelod o staff ynglŷn â gohebiaeth yn yr iaith Gymraeg. Bydd yr Uned hefyd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd cyhoeddus yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae staff yr Uned yn gyfieithwyr profiadol sydd yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy Iaith (lefel 5 ar lafar ac ysgrifenedig yn Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg yr Heddlu – gweler Atodiad C)). Anogir y cyfieithwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol trwy ymuno â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru a mynychu digwyddiadau hyfforddiant mewn swydd priodol.

Os, ar gyfnodau pan fo pwysau gwaith yn drwm, y bydd unrhyw waith yn cael ei anfon at gyfieithwyr allanol, bydd yr Heddlu'n sicrhau bod y cyfieithwyr hynny yn gymwys i gyflawni'r gwaith. Bydd y cyfieithwyr hyn yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac yn gyfarwydd â'r derminoleg a'r safonau disgwyliedig. Mabwysiedir egwyddorion 'Cymraeg Clir' wrth gynhyrchu unrhyw destun Cymraeg. Bydd yr Uned Gyfieithu'n goruchwylio'r broses yn unol â pholisi'r Heddlu ac yn monitro safon ac ansawdd y gwaith.

Mae gwaith cyfieithu'n sgìl arbenigol ac nid yw'n rhywbeth y gallai unrhyw aelod o staff sy'n ddwyieithog ei wneud. Fodd bynnag, rhoddir anogaeth i staff ysgrifennu eu llythyrau yn Gymraeg pan fyddant yn hyderus o'u gallu i wneud hynny. Mae staff yr Uned Gyfieithu yn darparu gwasanaeth gwirio dogfennau sy'n cael eu hysgrifennu yn Gymraeg ac yn cynnig adborth os yw hynny'n briodol.

**5.4.** Mae'r Heddlu wedi cynhyrchu bathodynnau unigryw i gynorthwyo i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu. Anogir staff sy'n siarad Cymraeg a'r sawl sy'n dysgu i wisgo bathodyn bach sy'n dangos i'r cyhoedd eu bod yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg, neu eu bod yn dysgu Cymraeg. Rhoddir arweiniad ar hyn ym Mhrotocol Gwisg yr Heddlu.

**5.5.** Bydd Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn disgwyl i unrhyw drydydd parti a gyflogir ar ei ran ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn unol ag amodau'r Cynllun. Amlinellir yr union fanylion yn y dogfennau contract.

**5.6.** Wrth gynllunio, comisiynu a chyflwyno unrhyw wasanaeth i'r cyhoedd bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried natur ieithyddol yr ardal, y cymunedau a'r sefydliadau addysgol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i hadolygu/diweddaru wrth gyflwyno gwybodaeth i swyddogion lleol newydd.

**5.7.** Bydd gallu'r Heddlu, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, unrhyw drydydd parti a gyflogir ar ei ran, neu unrhyw bartner i ddarparu dewis iaith o ansawdd yn cael ei fonitro yn gyson trwy wneud defnydd o'r dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg (Atodiad B). Bydd y dangosyddion perfformiad ac unrhyw ganlyniadau yn eitem sefydlog ar agenda Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu.

**5.8.** Bydd yr Heddlu'n cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith aelodau'r cyhoedd i bartïon eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol.

**5.9.** Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn annog Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddluoedd a Throsedd eraill Cymru i rannu arfer da a chydweithio ar brosiectau er budd eu gwahanol Gynlluniau Iaith. I'r perwyl hwnnw sefydlwyd Grŵp Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru. Y Prif Swyddog sy'n arwain y grŵp hwn fydd swyddog blaen CPSH Heddluoedd Cymru ar faterion y Gymraeg.

**5.10.** Bydd gwybodaeth am sefyllfa ieithyddol pob ardal ar draws Gogledd Cymru yn cael ei chynnwys ym mhroffil rhawd pob Tîm Plismon Cymdogaeth. Bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru. Bydd tîm rheoli'r ardal plismona lleol yn cadw cofnod o'r wybodaeth.

# 6. DARPARU GWASANAETHAU I'R CYHOEDD YNG NGOGLEDD CYMRU

**Gohebiaeth Ysgrifenedig**

**6.1.** Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig ar ffurf electronig a phapur yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael ei hateb a'i llofnodi yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol yn unol ag amseroedd ymateb targed Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, neu ble nad yw hyn yn bosibl, anfonir nodyn o gydnabyddiaeth wedi'i lofnodi yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol ynghyd â diweddariadau ar gynnydd wedi hynny.

**6.2.** Bydd pob cylchlythyr, taflen, llythyr safonol neu ffurflen a anfonir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd unrhyw ffurflenni a gynhyrchir yn ganolog sy'n cynnwys manylion am gosbau penodol yn ddwyieithog.

**6.3.** Os bydd unrhyw aelod o staff yn cyfathrebu trwy lythyr neu neges e-bost gydag aelod o'r cyhoedd ar ôl cael sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg neu yn newis iaith yr unigolyn hwnnw. Os na all yr aelod o staff ysgrifennu'n hyderus yn Gymraeg bydd yn bosib cael cymorth yr Uned Gyfieithu.

**6.4.** Bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agor gohebiaeth yn Gymraeg gyda phobl y gwyddom, oherwydd cyswllt blaenorol, fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob ardal blismona yn cynnal cronfa ddata o'r rhai hynny sy'n dymuno delio â'r sefydliad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os nad yw iaith derbynnydd unrhyw ohebiaeth yn hysbys, bydd gohebiaeth ddwyieithog yn cael ei hanfon.

**6.5.** Bydd yr holl fanylion safonol ar ddogfennaeth swyddogol yr Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu, gan gynnwys llythyrau, tudalen flaen negeseuon ffacs a llofnodion negeseuon e-bost yn ddwyieithog. Bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu i'r chwith ohoni gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys unrhyw destun safonol.

**6.6.** Er mwyn gweithredu'r polisi uchod, bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu ynghylch y trefniadau hyn yn ogystal ag am y cymorth sydd ar gael i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Bydd staff yr Uned Gyfieithu yn y Pencadlys ar gael i roi cymorth i staff gyda chyfieithiadau ysgrifenedig ble bo angen.

**6.7.** Mae'r Heddlu wedi buddsoddi yn CYSGLIAD, sef pecyn meddalwedd cyfrifiadurol sydd o gymorth i unigolion gywiro sillafu a gramadeg Cymraeg. Mae'r pecyn ar gael i'w osod ar gyfrifiaduron staff a fydd yn debygol o elwa o'i gael.

**6.8.** Bydd pob ffurflen sy'n cynnwys manylion penodol am ddirwy neu gosb a anfonir at y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.

# 7. CYFATHREBU DROS Y FFÔN

**7.1.** Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd pob galwad ffôn a dderbynnir ar rifau ffôn yr Heddlu sy'n cael eu cyhoeddi'n allanol a galwadau i'r Ystafell Reoli yn cael eu hateb yn ddwyieithog gyda chyfarchiad Cymraeg yn gyntaf ac yna Saesneg. Bydd staff yn dangos sensitifrwydd a chwrteisi ieithyddol wrth ymateb i alwadau Cymraeg ac yn hwyluso dewis iaith.

Os yw'r galwr yn dymuno siarad Cymraeg ond yr aelod o staff sy'n derbyn yr alwad ddim yn siarad Cymraeg, bydd yr alwad yn cael ei hailgyfeirio i siaradwr Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bob amser i natur a phwysigrwydd yr alwad.

**7.2.** Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn yr Ystafell Reoli/Canolfan Alwadau'r Heddlu i ddelio ag aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth 101 neu 999 ac sydd eisiau siarad Cymraeg.

**7.3.** Bydd y Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol yn rhoi cyfarwyddiadau i staff ar sut i ymateb yn briodol i alwadau ffôn gan y cyhoedd.

**7.4.** Bydd negeseuon dwyieithog ar beiriant ateb y rhifau ffôn hynny a gyhoeddir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ganiatáu i'r cyhoedd gysylltu'n uniongyrchol â hwy.

**7.5.** Bydd staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob ardal blismona/adran yn cael eu hadnabod a'u manylion yn cael eu cadw ar gronfa ddata. Bydd hyn yn caniatáu i'r ardaloedd plismona/adrannau roi'r sylw priodol i alwadau sy'n cael eu hailgyfeirio yn unol â dymuniadau'r galwr neu er mwyn sicrhau bod rhywun yn ffonio'n ôl os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i ddelio â'r alwad.

**7.6.** Bydd pob aelod o staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn trin y galwadau hynny yn unol â'r arweiniad yn yr adran hon.

# 8. CYFARFODYDD CYHOEDDUS

**8.1.** Bydd croeso i bob aelod o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd Heddlu Gogledd Cymru neu Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru siarad Cymraeg neu Saesneg. Bydd hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n disgrifio'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd yn egluro bod hyn yn bosibl.

**8.2.** Darperir cyfleusterau cyfieithu gan staff Uned Gyfieithu'r Heddlu ymhob cyfarfod cyhoeddus fel mater o drefn, oni cheir gwybod ymlaen llaw fod pawb a fydd yn bresennol yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn unig neu'r Saesneg yn unig.

**8.3.** Bydd yr egwyddor o gynnig dewis iaith ac ymateb yn gadarnhaol i gais am gyfraniad Cymraeg yn berthnasol hefyd i gyfarfodydd cynghorau lleol, a chyflwyniadau a sgyrsiau a gynhelir mewn sefydliadau addysgol ac yn y gymuned. Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn darparu staff sy'n siarad Cymraeg i'r pwrpas o annerch ysgolion, cymdeithasau, grwpiau ieuenctid ayyb, ar faterion sydd o ddiddordeb i blismona yn unol â dymuniad y sefydliad/grŵp.

**8.4.** Yn unol â dyhead yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith fusnes fewnol, anogir y rhai hynny sy'n cadeirio cyfarfodydd i agor a chloi cyfarfodydd mewnol yn ddwyieithog er mwyn rhoi statws cyfartal i'r ddwy Iaith.

**8.5.** Ym mhob cyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd a gynhelir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, bydd cadeirydd y digwyddiad yn agor y trafodaethau gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd cyfranogwyr hefyd yn cael gwybod bod cyfleusterau cyfieithu ar gael a bod croeso iddynt gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**8.6.** Byddwn yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Heddlu neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn unrhyw gyfarfodydd neu gyflwyniadau allanol yn cynnig y dewis o gyflwyno'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog a'u bod yn ymateb yn bositif i gais am gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

# 9. CYSWLLT ARALL Â'R CYHOEDD

**9.1.** Bydd croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno neu sy'n gorfod trafod unrhyw fater wyneb yn wyneb â Heddlu Gogledd Cymru neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

**9.2.** Byddwn yn darparu ar gyfer unigolion sy'n dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Rhoddir hysbysiadau a phosteri dwyieithog mewn mannau cyhoeddus mewn gorsafoedd heddlu ac adeiladau'r heddlu i dynnu sylw at y cyfleusterau hyn.

**9.3.** Ym mhob cyfrwng cyfathrebu arall mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn eu dewis iaith.

**9.4.** Pan gyfwelir unigolyn yn ystod ymchwiliad, bydd Heddlu Gogledd Cymru'n hysbysu'r unigolyn ar lafar ynglŷn â'i hawl i gael ei gyfweld/chyfweld yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'i (d)dymuniadau. Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r penderfyniad a throsglwyddir y dewis i bartneriaid perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod dewis iaith unigolyn yn cael ei barchu. Gwneir trefniadau i sicrhau presenoldeb swyddog sy'n siarad Cymraeg os nad oes un ar gael.

**9.5.** Bydd staff sydd yn gallu siarad Cymraeg neu sydd yn dysgu yn cael eu hannog i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog ar gychwyn unrhyw gyfarfod neu sgwrs er mwyn hwyluso dewis Iaith.

**9.6.** Bydd staff yn ymateb yn gadarnhaol i gais am wasanaeth Cymraeg ac yn hwyluso'r broses os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain.

**9.7.** Bydd staff y dalfeydd yn hysbysu unigolion ar lafar o'u hawl i gael eu cyfweld drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis. Bydd cofnod yn cael ei wneud bod dewis iaith wedi cael ei gynnig a bydd ymateb yr unigolyn yn cael ei gofnodi. Trosglwyddir y dewis iaith hwn i bartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill fel rhan o gyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru i hwyluso dewis iaith o fewn y Sector Cyfiawnder Troseddol.

# 10. WYNEB CYHOEDDUS HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

**Hunaniaeth Gorfforaethol**

**10.1.** Bydd hunaniaeth gorfforaethol Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn llwyr ddwyieithog.

Bydd pob dogfen ac arwydd at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith. Bydd pob dogfen yn parchu'r egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal a sicrhau eu bod yn gydradd o safbwynt fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

**10.2.** Pan fydd taflenni cyhuddo yn cael eu paratoi'n ganolog, bydd yr holl fanylion ynghylch lleoliad/natur y drosedd yn cael eu nodi'n ddwyieithog.

**10.3.** Bydd unrhyw ddogfen newydd fydd yn ymddangos yn y parth cyhoeddus hefyd yn ddwyieithog. Bydd y Gymraeg yn cael ei gosod naill ai uwchben neu i'r chwith i'r Saesneg ar unrhyw arwyddion neu hysbysebion.

**10.4.** Bydd arwyddion yn cael eu harddangos mewn mannau cyhoeddus megis cownteri blaen Gorsafoedd Heddlu, mewn derbynfeydd a dalfeydd yn dweud bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.

**Arwyddion**

**10.5.** Bydd holl arwyddion allanol a mewnol Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ddwyieithog.

**10.6.** Bydd pob arwydd yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb y ddwy iaith a byddant yn gydradd o safbwynt fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

**10.7.** Bydd yr holl arwyddion cyhoeddus eraill y mae Heddlu Gogledd Cymru yn gyfrifol amdanynt hefyd yn ddwyieithog e.e. arwyddion ffordd dros dro, arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, apeliadau am wybodaeth, arwyddion yn rhybuddio bod damwain wedi digwydd neu arwyddion stopio neu arafu.

**10.8.** Cyfrifoldeb yr ardaloedd plismona/adrannau fydd adnabod unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth o ran iaith arwyddon a rhoi gwybod i'r Adran Gyfleusterau.

# 11. CYHOEDDIADAU A DEUNYDDIAU YSGRIFENEDIG (YN CYNNWYS FERSIYNAU ELECTRONIG)

**11.1. Dogfennau Allanol**

Bydd holl gyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (gan gynnwys fersiynau electronig) at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog.

Mae'r fethodoleg a welir yn Atodiad 'A' yn dangos pa eitemau fydd bob amser yn ddwyieithog a pha eitemau fydd fel arfer yn ymddangos mewn un iaith yn unig. Mae'n rhaid blaenoriaethu gwaith a defnyddio adnoddau cyfieithu ar gyfer yr eitemau pwysicaf.

**11.2.** Ni fydd dogfennau mewnol yn cael eu cyfieithu ar draul dogfennau ar gyfer y cyhoedd. Defnyddir y canllawiau yn Atodiad 'A' i flaenoriaethu rhwng eitemau mewnol ac allanol.

**11.3.** Ble bo hynny'n bosibl, bydd pob dogfen gyhoeddus yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg. Bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith i'r testun Saesneg. Ble nad yw hyn yn ymarferol oherwydd anawsterau argraffu, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd.

Ni fydd fersiwn Gymraeg o ddogfen yn ddrutach i'w chynhyrchu na'r fersiwn Saesneg a bydd y ddwy ddogfen o'r un ansawdd.

Pan gynhyrchir fersiwn uniaith o ddogfen neu ffurflen, bydd arni neges yn cadarnhau bod y ddogfen neu'r ffurflen ar gael yn yr iaith arall.

**11.4.** Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio dogfennau a gyhoeddir yn ganolog e.e. gan gyrff megis y Swyddfa Gartref, sy'n cael eu dosbarthu i'r cyhoedd. Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn annog Heddluoedd eraill Cymru i gefnogi eu ceisiadau am i'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau eraill y llywodraeth gydnabod bodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru a'r angen iddynt greu a chynhyrchu prosesau a llenyddiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

**11.5. Dogfennau Mewnol**

Mae'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn awyddus i weld mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith fusnes fewnol. Dylai staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu eitemau at ddefnydd mewnol ystyried cyfleoedd i gynnwys y ddwy iaith, yn arbennig felly mewn cylchlythyrau gwybodaeth gyffredinol, eitemau sy'n gofyn am ymateb personol gan staff, megis arolygon a holiaduron, a phosteri fydd yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau neu ar waliau swyddfeydd.

# 12. FFURFLENNI A DEUNYDDIAU ESBONIADOL

**12.1.** Bydd ffurflenni a deunyddiau esboniadol wedi'u hargraffu at ddefnydd y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn llwyr ddwyieithog. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai bydd angen cynhyrchu ffurflenni/taflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, ond gwneir pob ymdrech i gadw hyn i'r isafswm.

**12.2.** Ble nad yw'n bosibl neu os yw'n anymarferol cyhoeddi dogfen sy'n cynnwys y ddwy iaith, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a byddant yr un mor hawdd i'w cael mewn swyddfeydd a mannau dosbarthu eraill. Bydd y ddogfen hefyd yn cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall. Pan fydd cyhoeddiad ar gael yn y ddwy iaith ar wahân, ni fydd fersiwn mewn un iaith yn cael ei gyhoeddi ac ar gael cyn y fersiwn yn yr iaith arall.

# 13. DATGANIADAU I’R WASG

Bydd Heddlu Gogledd Cymru a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymgynghori â’r wasg a’r cyfryngau i ganfod ym mha iaith y byddai orau ganddynt dderbyn datganiadau i’r wasg - Cymraeg neu Saesneg yn unig, neu’n ddwyieithog. Bydd cofnod o'r hyn sydd orau gan y wasg a’r cyfryngau yn cael ei gadw yn Swyddfa Cyswllt y Cyfryngau. Bydd y wybodaeth yn cael ei hadolygu a’i diweddaru’n flynyddol.

# 14. YMGYRCHOEDD CYHOEDDUSRWYDD, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSIADAU RECRIWTIO

**14.1.** Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i gynnal mentrau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog ar ba bynnag ffurf y byddant yn cael eu cynnal (e.e. posteri, bwletinau gwybodaeth, taflenni, arolygon, arddangosfeydd, stondinau arddangos, papurau newydd, radio, teledu, sinema, tapiau fideo, CD, DVD a thapiau sain).

**14.2.** Bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff ar gyfer eu dosbarthu'n bennaf neu'n llwyr yng Nghymru yn ddwyieithog mewn papurau iaith Saesneg ac yn Gymraeg yn unig mewn papurau iaith Gymraeg.

**14.3.** Bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd dwyieithog yng Nghymru, mewn modd fydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd hysbysebion swyddogol, hysbysebion cyhoeddus a hysbysebion recriwtio yn ymddangos yng Nghymru gyda'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd ac yn gyfartal o safbwynt fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu ar unrhyw ffurf arall.

- bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer ei ddefnyddio yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg
- bydd ymgyrchoedd hysbysebu yn y wasg yng Nghymru yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg
- bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd teledu a radio ynghyd â darllediadau bwletinau gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg
- bydd hysbysebion ar bosteri a phalisau ynghyd â'r defnydd o negeseuon electronig yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg
- bydd arolygon cyhoeddus yng Nghymru boed y rhain drwy'r post, o ddrws i ddrws, ar y stryd neu fel arall, yn ddwyieithog
- bydd ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn Gymraeg ac yn Saesneg
- bydd mecanweithiau ymateb cysylltiedig â gweithgareddau hysbysebu a marchnata yng Nghymru yn caniatáu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- bydd stondinau arddangos gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog

**14.4.** Pan fydd angen dyfynnu rhifau ffôn cyswllt ar unrhyw lenyddiaeth cyhoeddusrwydd, bydd rhifau priodol y llinell Gymraeg a'r llinell Saesneg yn cael eu cynnwys.

**14.5.** Yn Saesneg y bydd hysbysiadau recriwtio mewn cyhoeddiadau Saesneg sydd ar gael ar draws y DU (e.e. *Police Review*) yn ymddangos oni bai:

- bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol
- y byddai o fudd hysbysebu'n ddwyieithog er mwyn denu siaradwyr Cymraeg o bob cwr o'r DU.

**14.6.** Bydd hysbysebion recriwtio mewn cyhoeddiadau Saesneg sydd ar gael ar draws y DU yn cyfeirio at natur ddwyieithog ardal yr Heddlu.

**14.7.** Bydd unrhyw hysbysebion cyhoeddus neu hysbysebion recriwtio a fydd yn ymddangos mewn ardaloedd eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

**14.8.** Bydd yr holl wybodaeth sy'n ymddangos ar wefannau'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ddwyieithog.

**14.9.** Dylai staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gynllunio'n ddwyieithog ac ystyried yr angen i ddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol yn y gwaith dylunio/celf.

**14.10.** Bydd rhaid i unrhyw gorff neu grŵp fydd yn ymuno mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am resymau cyhoeddusrwydd gydymffurfio a Chynllun Iaith yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**14.11.** Bydd y paragraff isod yn ymddangos mewn unrhyw ohebiaeth at ymgeiswyr allanol am swyddi gyda'r Heddlu neu yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

"Nodwch os gwelwch yn dda, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymrun a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, y bydd pob penodiad yn amodol ar y gallu i ddangos sgiliau Cymraeg sylfaenol. Ystyr hyn yw gallu ynganu enwau lleoedd yn gywir, gallu cyfarch a dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol. Bydd swyddi sy'n gofyn am lefel uwch o allu yn nodi'r lefel sydd ei hangen."

# 15. GWEITHREDU'R POLISI

**Cyflogaeth, Recriwtio a Hyfforddiant**

**15.1.** Mae'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn anelu at fod yn sefydliadau dwyieithog, ond ar hyn o bryd nid oes gan yr Heddlu ddigon o staff sydd â'r gallu, yr hyder a'r parodrwydd i siarad Cymraeg i allu sicrhau dewis iaith wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag mae'r Heddlu wedi ymrwymo i geisio cynyddu nifer y staff dwyieithog fydd yn cael eu recriwtio ac i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith honno.

Rydym wedi cynhyrchu cyfres o Gryno Ddisgiau 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' fel adnodd 'hunan addysgu' i gynorthwyo staff nad ydynt yn siarad Cymraeg a staff dichonol i ennill sgiliau siarad sylfaenol. Mae'r CDau ar gael i bob aelod o staff newydd ac i'r staff presennol. Mae'r cynnwys a'r sgript hefyd ar gael yn electronig ar wefan yr Heddlu.

**15.2.** Mae'r Heddlu'n awyddus i sicrhau bod gan bob aelod newydd o staff a staff sydd wedi bod yma ers amser o leiaf allu sylfaenol yn y Gymraeg er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol a sensitifrwydd iaith. Datblygwyd protocolau iaith Gymraeg er mwyn cyflawni hyn (Atodiad D). Y nod yn hyn o beth yw newid proffil ieithyddol y sefydliad mewn dull cynlluniedig. Yn unol â'r polisi presennol bydd disgwyl i bob aelod newydd o staff ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg hyd lefel sylfaenol cyn ymuno. Os bydd angen bydd yr Heddlu'n darparu copïau o'r Cryno Ddisgiau 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' 1 a 2 i ddarpar staff i'w cynorthwyo i gyrraedd y nod. Disgwylir hefyd y bydd unigolion yn cymryd cyfrifoldeb personol dros gyrraedd y nod hon.

**15.3.** Yn ychwanegol, bydd disgwyl i staff newydd nad ydynt yn siarad Cymraeg wella'u sgiliau llafar sylfaenol a'u codi i'r lefel nesaf yn ystod eu cyfnod prawf cyn derbyn cadarnhad o'u penodiad i'w swydd. Bydd disgwyl i staff sydd eisoes yn siarad Cymraeg gadarnhau ac ehangu eu sgiliau yn unol ag anghenion yr unigolyn a'i rôl ac anghenion y sefydliad. Bydd hyfforddiant iaith a chefnogaeth berthnasol yn cael eu cynnig yn ystod amser dyletswydd i gynorthwyo staff i gyrraedd y nod. Bydd disgwyl i unigolion gymryd cyfrifoldeb personol i gyrraedd y nod. Bydd disgrifiadau swydd yn cael eu llunio yn ôl yr angen.

**15.4.** Ystyrir ei bod yn fater o arweinyddiaeth bod ein goruchwylwyr a'n rheolwyr yn gallu dangos o leiaf cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg. Fel rhan o'n gwaith i wella dwyieithrwydd yr Heddlu bydd angen i bob aelod o staff ddangos y sgìl hwn i fod yn gymwys ar gyfer dyrchafiad fel yr amlinellir yn ein protocolau iaith Gymraeg. Bydd staff yn cael cefnogaeth i gyrraedd y lefel hon drwy CD 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' 2 a chyrsiau iaith addas y byddant yn cael eu mynychu yn ystod oriau gwaith.

**15.5.** Yn ogystal, ystyrir ei bod yn fater o arweinyddiaeth bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i Ddirprwy hefyd yn gallu dangos o leiaf cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg. Mewn ymdrech i ychwanegu at rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel y bont rhwng y gymuned a'r Heddlu, bydd yn ofynnol i bob aelod o staff yn swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddangos y sgìl hwn. Bydd staff yn cael cefnogaeth i gyrraedd y lefel angenrheidiol a byddant yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

**15.6.** Byddwn yn parhau i geisio recriwtio mwy o staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu ac sydd â'r sgiliau angenrheidiol eraill i gyflawni dyletswyddau'r swydd. Rhan o'r broses hon yw meithrin a chynnal cyswllt â sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg. Byddwn yn gofalu fod digon o fuddsoddiad yn yr ymgyrchoedd recriwtio a bod digon o adnoddau staff yn bodoli i gyrraedd y nod.

**15.7.** Mae egluro cefndir, nodau ac amcanion y Cynllun Iaith yn allweddol i gyflwyno newid diwylliannol yn yr Heddlu. Bydd pob aelod newydd o staff yn cael cyflwyniad ar ddisgwyliadau'r sefydliad fel rhan o unrhyw gwrs cyflwyno staff newydd. Bydd sesiynau ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael eu darparu ar gyrsiau datblygu sgiliau rheolwyr a chyrsiau ar gyfer staff sy'n cael cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd.

**15.8.** Mae'r Heddlu yn cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgìl ac er mwyn mesur y sgìl cynhyrchwyd y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg mewnol. Defnyddir y fframwaith i asesu lefelau gallu yn y Gymraeg. Gellir gweld y fframwaith a nodiadau esboniadol yn Atodiad C. Bydd ymgeiswyr am swyddi'n cael gwybod beth yw'r lefel angenrheidiol o gymhwyster. Darperir y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg i alluogi staff i ddynodi a chofnodi eu sgiliau Cymraeg presennol fel rhan o'r broses werthuso flynyddol. Rhoddir y pwyslais ar allu a pharodrwydd aelod o staff i ddefnyddio'i sgiliau iaith yn y gweithle. Bydd yn cael ei ddefnyddio bob tro y mae angen dynodi lefelau o allu yn y Gymraeg.

**15.9.** Ble bo angen, ac er mwyn cyflawni'r amcan a nodwyd, h.y. cynnig dewis iaith i'r cyhoedd, bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn adnabod gweithleoedd a swyddi lle mae disgwyl lefel benodol o allu yn y Gymraeg. Bydd yr Heddlu yn ymchwilio ffyrdd oesur y lefel angenrheidiol o allu yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Bydd rhai swyddi angen lefel uchel iawn (lefel 4 neu 5) o sgiliau iaith Gymraeg oherwydd natur y cyfrifoldebau.

Yr Adran Adnoddau Dynol fydd â pherchenogaeth a goruchwyliaeth strategol dros y broses o ddynodi gofynion lefelau gallu yn y Gymraeg pob swydd.

**15.10.** Rhoddir cefnogaeth i staff sydd angen neu sy'n dymuno dysgu neu wella eu gallu i siarad Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i swyddi lle mae cysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd. Bydd rhaglenni dysgu a hyfforddi sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi yn cael eu trefnu. Lle mae achos busnes dros fuddsoddi mewn staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant iaith neu ddigwyddiadau datblygu sgiliau iaith wedi'u trefnu, byddant yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith a'r ardaloedd plismona/adrannau fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd.

**15.11.** Bydd hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael yr un statws ag unrhyw hyfforddiant arall yn yr Heddlu. Bydd prosesau sy'n rhan o adolygiadau o ddatblygiad personol yn cael eu defnyddio i ddynodi anghenion hyfforddiant staff. Os bydd yr angen neu'r dymuniad i fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei godi/adnabod bydd hyn yn cael ei nodi gan Reolwyr Adnoddau Dynol yr Ardaloedd Plismona/Adrannau. Fel gydag unrhyw hyfforddiant, cyfrifoldeb y rheolwr llinell fydd enwebu staff i fynychu cyrsiau ac i hwyluso a monitro presenoldeb yn ogystal â dangos diddordeb yng nghynnydd yr unigolyn.

**15.12.** Byddwn yn annog pob aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg i ddatblygu gallu llafar sylfaenol yn yr iaith fel y gallant ddangos cwrteisi ieithyddol i'r cyhoedd ac i'w cydweithwyr. Bydd staff yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgìl hwn drwy ddulliau addas.

**15.13.** Os bydd unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg yn cael ei benodi i swydd a ystyrir yn swydd y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn elfen hanfodol ohoni, bydd disgwyl i'r sawl a benodwyd ddysgu'r iaith hyd at lefel ofynnol o fewn cyfnod y cytunwyd arno. Bydd cytundebau swyddi yn cael eu haddasu i gynnwys yr angen hwn. Os na fydd targedau dysgu yn cael eu cyrraedd o fewn y cyfnod penodedig bydd perfformiad yr aelod o staff perthnasol yn cael ei adolygu yn unol â'r cytundeb cyflogaeth. Yr Adran Adnoddau Dynol fydd yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r broses hon.

**15.14.** Pan fydd rhywun yn cael ei gyfweld ar gyfer swydd a ddynodwyd yn swydd 'Cymraeg yn Hanfodol' bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Bydd sgiliau Cymraeg yr ymgeisydd yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses gyfweld.

**15.15.** Lle bo'n briodol cynigir hyfforddiant galwedigaethol yn yr iaith Gymraeg i aelodau o staff.

**15.16.** Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ofyn i'r Coleg Plismona ddarparu gweithdrefnau dethol swyddogion ac arholiadau dyrchafu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

**15.17.** Bydd egwyddorion y polisi hwn yn cael eu hystyried wrth baratoi'r strategaeth Adnoddau Dynol.

# 16. TREFNIADAU LLYWODRAETHU

**16.1.** Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi llwyr ymrwymo i gyflawni'r egwyddorion a ddisgrifir yn y polisi hwn.

**16.2.** Mae'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i integreiddio agweddau iaith Gymraeg gwasanaethau'r sefydliad yn eu prosesau gweinyddol arferol. Pan fydd cynlluniau unrhyw brosiect newydd yn cael eu cyflwyno i'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er cymeradwyaeth, byddant yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

**16.3.** Mae cadw at y Cynllun Iaith Gymraeg a chwblhau'r amcanion yn ei gynllun gweithredu (Atodiad B) wedi'i gynnwys fel amcan yng Nghynllun Plismona Blynyddol yr Heddlu sy'n rhoi manylion ynghylch cyfeiriad y sefydliad.

**16.4.** Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am y portffolio iaith Gymraeg ac ef sy'n benodol gyfrifol am sicrhau gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.

**16.5.** Cyfrifoldeb yr Uwch Swyddogion a Phenaethiaid Adrannau yw dosbarthu manylion am y Cynllun a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gofynion.

**16.6.** Yr Adran Gwasanaethau Iaith fydd yn gyfrifol am ddosbarthu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol i'r polisi hwn.

**16.7.** Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod cynnig dewis iaith a dangos sensitifrwydd ieithyddol yn chwarae rôl arwyddocaol mewn sicrhau gofal cwsmer a bodlonrwydd cwsmeriaid.

**16.8.** Bydd unrhyw Brif Swyddogion newydd/aelodau newydd o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gorfod mynychu sesiwn ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith Gymraeg fel rhan o'u cwrs cyflwyno.

# 17. GWYBODAETH AM Y CYNLLUN

Mae cyngor ac arweiniad am gynnwys a gofynion y Cynllun ar gael ar gyfer pob rheolwr a staff ac ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan Bennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth ddefnyddiol hefyd ar gael ar safle'r iaith Gymraeg ar Fewnrwyd yr Heddlu.

# 18. GWASANAETHAU AR RAN HEDDLU GOGLEDD CYMRU GAN BARTÏON ERAILL

**18.1.** Wrth gyflawni swyddogaethau statudol a'r rhai hynny sy'n rheoli darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn:

i) annog sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaeth.

ii) cyfeirio'r sefydliad at y Cynllun Iaith Gymraeg a'r arferion da a sefydlir ynddo a chynnwys mesurau'n ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cytundebau gwasanaeth, trwyddedau gwasanaeth neu ddogfennau rheoleiddiol eraill er mwyn cynnig arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau

**18.2.** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithredu ag eraill:

i) Pan fyddwn yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, byddwn yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith

ii) Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a byddwn yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

iii) Pan fyddwn yn gweithredu fel rhan o gonsortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm byddwn yn gweithredu yn unol â'u Cynllun Iaith.

Pan fyddwn yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, byddwn yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Ym mhob partneriaeth, byddwn yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Byddwn yn paratoi canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n ymuno mewn partneriaethau yn egluro'u cyfrifoldebau yn unol â'r Cynllun Iaith ac yn dweud sut y dylai swyddog fynd ati i briodoli gofynion y cynllun iaith i waith y bartneriaeth.

**18.3.** Ble defnyddir systemau cyfrifiadurol i lunio unrhyw ddogfennaeth gyhoeddus, bydd ganddynt y gallu i gynhyrchu dogfennaeth Gymraeg a Saesneg o'r un ansawdd.

**18.4.** Bydd yn ofynnol i gydlynwyr unrhyw brosiect ar y cyd ag asiantaeth/corff arall yn sicrhau bod y prosiect hwnnw yn cydymffurfio a Chynllun Iaith yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd . Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chynhyrchu llenyddiaeth eglurhaol/hyrwyddo.

# 19. MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLLUN

**19.1.** Bydd y Prif Gwnstabl yn cynnal adolygiadau chwarterol wedi'u strwythuro o berfformiad yr Heddlu mewn perthynas â'r Cynllun. Trwy ofyn am adroddiadau gan y rhai hynny sydd bennaf gyfrifol, bydd modd sicrhau bod y meysydd priodol yn cael y sylw dyledus

**19.2. Polisïau a Gweithdrefnau**

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau newydd yn cydymffurfio â chyflwyniad gwasanaethau dwyieithog ar sail gydradd.

**19.3. Darparu Gwasanaeth**

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro cyflwyniad gwasanaethau'r sefydliad yn y ddwy iaith yn barhaus gan gynnwys eu heffeithiolrwydd, a pha mor llwyddiannus yw'r sefydliad o ran annog y defnydd o'r Gymraeg gan bartïon eraill trwy wneud defnydd o Ddangosyddion Perfformiad yr Iaith Gymraeg (Atodiad B).

Pennaeth Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg yr Heddlu, gyda chefnogaeth y Prif Gwnstabl, fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad ardaloedd Plismona/adrannau â'r Cynllun Iaith o ddydd i ddydd.

**19.4.** Bydd unrhyw ymchwil i fodlonrwydd y cyhoedd â'r gwasanaeth y maent yn ei gael gan yr Heddlu yn cynnwys cyfeiriad at y gallu i gael gwasanaeth yn Gymraeg.

**19.5.** Ar hyn o bryd nid yw'r Swyddfa Gartref nac Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi yn rhoi unrhyw ystyriaeth i fodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru wrth gynnal Arolwg. Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i herio'r agwedd hon er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad a'r ymdrech yn cael eu cydnabod fel rhan o ymateb yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i faterion amrywiaeth yn eu hardal.

**19.6. Delio ag Aelodau o'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro amseroedd ymateb i lythyrau Cymraeg, safon y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a threfniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog gyda'r cyhoedd a phartneriaethau.

Bydd rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg a dewis iaith i'r cyhoedd yn y ddwy iaith swyddogol yn cael ei brif ffrydio i mewn i holl systemau a phrosesau sicrhau ansawdd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**19.7. Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad**

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro'r defnydd o gyhoeddiadau dwyieithog, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau eraill a gyhoeddir yn ogystal â sicrhau lledaeniad hunaniaeth gorfforaethol yr Heddlu. Bydd unrhyw ddeunydd corfforaethol yn defnyddio'r ddwy iaith, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith i'r Saesneg. Bydd y Penaethiaid Ardaloedd Plismona/Adrannau yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o ddeunyddiau dwyieithog.

### 19.8. Cyflogaeth

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro'r mesurau staffio a hyfforddi a ddisgrifir yn y Cynllun.

Bydd gallu, hyder a pharodrwydd swyddogion/staff i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith yn cael ei brif ffrydio i mewn i holl brosesau a systemau Adnoddau Dynol yr Heddlu. Bydd Adran Adnoddau Dynol Corfforaethol yr Heddlu yn cydlynu hyn ac yn sicrhau cydymffurfiad ardaloedd plismona/rheolwyr Adnoddau Dynol adrannol. Cynhyrchir a darperir adroddiadau priodol ar y materion hyn ar gais Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

# 20. AMSERLEN

Caiff amcanion ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ogystal â pherfformiad blynyddol yn erbyn yr amcanion hyn eu cyhoeddi ar wefan yr Heddlu.

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro cyflawniad yn erbyn y targedau yn unol â'r disgrifiad yn yr amserlen weithredu yng Nghynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 21. ASIANTAU A CHONTRACTWYR

Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro darpariaeth a gweinyddiad gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr (gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir) ermwyn sicrhau cydymffurfiad â’r Cynllun.

# 22. SYLWADAU A CHWYNION AM Y CYNLLUN IAITH

**22.1.** Fel rhan o raglen ansawdd gwasanaeth yr Heddlu a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rhoddir ystyriaeth i’r hyn sydd gan y cyhoedd sy’n siarad Cymraeg i’w ddweud ynghylch ystod ac ansawdd y gwasanaeth mae’r Heddlu a Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei ddarparu.

**22.2.** Fel gyda phob cwyn sy’n ymwneud â Heddlu Gogledd Cymru, y Prif Swyddog â chyfrifoldeb am ymdrin â chwynion fydd yn gyfrifol am fonitro amledd a natur y cwynion sy’n berthnasol i wasanaeth iaith Gymraeg yr Heddlu a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Bydd cwynion sy’n berthnasol i'r Cynllun Iaith yn cael eu trin yn unol â Deddf Diwygio’r Heddlu 2002 ac Arweiniad Statudol Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

**22.3.** Bydd Heddlu Gogledd Cymru a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau iaith Gymraeg. Gall y cyhoedd gyflwyno awgrymiadau i’r Prif Gwnstabl ym Mhencadlys yr Heddlu, Glan y Don, Bae Colwyn. Bydd Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu’n ystyried yr awgrymiadau ac, os ystyrir eu bod yn berthnasol ac yn werth eu mabwysiadu, byddant yn cael eu cynnwys yn ein polisïau. Bydd y sawl a anfonodd yr awgrym yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â datblygiadau.

# 23. ADRODD

Bydd Heddlu Gogledd Cymru'n paratoi Adroddiad Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ar ffurf a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Iaith, yn disgrifio'r datblygiadau a fu o ran gweithredu'r mesurau sydd yn y Cynllun yn erbyn yr amserlenni a'r safonau a gytunwyd. Bydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r nifer ynghyd â natur unrhyw gwynion neu awgrymiadau ynglŷn â gwelliannau a geir gan y cyhoedd parthed materion yr iaith Gymraeg.

# 24. CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN IAITH

**24.1.** Bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn codi ymwybyddiaeth staff o fodolaeth y Cynllun Iaith Gymraeg a'i nodau ac amcanion. Bydd sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn cael eu defnyddio fel rhan o gyrsiau hyfforddi a gweithdrefnau mewnol eraill i drosglwyddo gwybodaeth.

**24.2.** Yn draddodiadol, mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi arfer delio â'r sawl sy'n cynrychioli awdurdod yn Saesneg. Bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio'n gyson i newid yr agwedd hon. Rhan o hyn fydd anelu at sicrhau bod cael gwasanaeth yn Gymraeg yr un mor hawdd â chael gwasanaeth yn Saesneg. Ceisir cyhoeddusrwydd ar gyfer datblygiadau cadarnhaol mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Iaith yn y cyfryngau ac mewn taflenni ac ymgyrchoedd penodol.

# ATODIAD A Canllaw ar ba ddogfennau ddylai fod yn ddwyieithog (neu yn y Gymraeg neu'r Saesneg)

**Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg a Saesneg)**

| | |
|---|---|
| Hysbysebion | Llenyddiaeth recriwtio |
| Llyfrynnau | Ffurflenni a phecynnau ymgeisio am swydd |
| Pamffledi/taflenni | Cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd |
| Ffurflenni i'r cyhoedd | Holiaduron/arolygon i'r cyhoedd |
| Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddus e.e. sticeri, posteri, tocynnau, hysbysiadau rhybuddio | Rhaglenni gwaith a chofnodion Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu |
| Adroddiadau Blynyddol | Datganiadau a bwletinau ystadegol |
| Papurau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | Cardiau busnes |
| Rhaglenni gwaith a chofnodion cyfarfodydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | Dogfennau ymgynghori sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd |
| Llythyrau safonol | Arddangosfeydd i'r cyhoedd |
| Deunyddiau cyhoeddusrwydd | |

**Eitemau Categori B: eitemau fydd o bosib yn ddwyieithog gan ddibynnu ar amgylchiadau**

| | |
|---|---|
| Cylchlythyrau mewnol | Cyflwyniadau |
| Papurau ymchwil | Strategaethau |
| Adroddiadau | Atodiadau i bapurau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Dogfennau ymgynghori mewnol | Cylchlythyrau |
| Datganiadau i'r wasg | |

**Eitemau Categori C: fel arfer mewn un iaith**

| | |
|---|---|
| Cyfrifon (oni bai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol) | Gwybodaeth fewnol a ryddheir i ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth |
| Taflenni a ddosberthir mewn cynadleddau gan gyrff neu unigolion eraill | Drafftiau gwaith |
| Dogfennau contract (ac eithrio os gwnaethpwyd cais amdanynt neu mewn sefyllfaoedd penodol | Dogfennau mewnol |
| Gwybodaeth hanesyddol/archif | |

**Rhai canllawiau**

| Ystyriaethau | | |
|---|---|---|
| Cynulleidfa Darged | Aelodau o'r cyhoedd lle mae galw hysbys a sefydlog am ddeunyddiau iaith Gymraeg<br><br>*- Categori A* | Arbenigwyr o fewn sectorau neu sectorau penodol lle mae'r galw am ddeunyddiau iaith Gymraeg yn fach iawn<br><br>*- Categori C* |
| A fydd yr eitem yn cael ei rhannu neu yn cael ei thrafod yn fewnol gan sefydliadau eraill? | Bydd<br><br>*- Categori A* | Na fydd<br><br>*- Categori C* |
| Galw/diddordeb tebygol lle mae'r mwyafrif o'r rhai sydd â diddordeb yn siarad Cymraeg | Uchel (diddordeb ymysg y cyhoedd yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru neu ddiddordeb penodol ymysg siaradwyr Cymraeg)<br><br>*- Categori A* | Isel (grwpiau arbenigol)<br><br>*- Categori C* |
| Statws/Proffil Allanol | Oes<br><br>*- Categori A* | Dim<br><br>*- Categori C* |

*Categori A – Dylai'r dogfennau hyn fod, a byddant, yn ddwyieithog*

*Categori C – Saesneg yn unig ar hyn o bryd ond gellir ailgynllunio yn y dyfodol.*

***Sylwer: Mae'n anochel na fydd yr uchod yn cwmpasu pob math o ddogfennau. Dylai staff fod yn ofalus wrth sicrhau eu bod yn dewis categori addas trwy gymharu, gan asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog. Os bydd unrhyw ansicrwydd dylid gofyn am arweiniad gan yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg.***

# ATODIAD B

CYNLLUN IAITH GYMRAEG HEDDLU GOGLEDD CYMRU A’R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD - **TARGEDAU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD**

**Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth**

**Canllaw 3 - Polisïau a Mentrau Newydd**

**Targed**
Bydd Heddlu Gogledd Cymru a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn prif ffrydio'r iaith Gymraeg yn ei holl bolisïau trwy lunio rhaglen prif ffrydio polisïau strwythuredig i'w chwblhau yn ystod y cyfnod y bydd y cynllun hwn mewn grym.

**DP 1** % y polisïau newydd a’r polisïau diwygiedig sydd wedi prif ffrydio’r Gymraeg mewn modd cyflawn a phwrpasol.

**Targed**
Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes fewnol.

**DP 2** % y cyfarfodydd rheolaethol a chyfathrebiadau (a gadeirir gan aelod o GPSH) yn Gymraeg.

**Canllaw 4 - Darparu Gwasanaeth**

**Targed**
Bydd Heddlu Gogledd Cymru a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trosglwyddo anghenion y Cynllun Iaith yn glir tra'n sicrhau bod yr iaith yn rhan annatod o ddarpariaeth gwasanaeth gan eraill a bod cydymffurfiad â hyn yn cael ei fonitro, gan gynnwys (i) pob sefydliad trydydd parti, (ii) partneriaethau a (iii) pan ddarperir nawdd.

**Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad**

**DP 3** a) % sefydliadau 3ydd parti o sefydliadau targed a gafodd eu monitro sy’n darparu gwasanaeth yn unol â gofynion y Cynllun Iaith.
b) % partneriaethau a gafodd eu monitro sy’n darparu gwasanaeth yn unol â gofynion y Cynllun Iaith.
c) % sefydliadau/cyrff sy’n derbyn nawdd gan yr Heddlu a gafodd eu monitro sy’n darparu gwasanaeth yn unol â gofynion y Cynllun Iaith.

**Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

**Canllaw 6**

**Targed**
Digon o staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg yn yr ystafelloedd rheoli a'r dalfeydd i sicrhau dewis iaith.

**DP 4** a) % staff yr ystafelloedd rheoli sy'n ddwyieithog (lefel 4 neu uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.

b) % staff y dalfeydd sy'n ddwyieithog (lefel 4 neu uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.

**Targed**
100% o staff cownteri gorsafoedd heddlu wedi'u staffio a derbynfeydd cyhoeddus ar draws ardal yr Heddlu i fod yn ddwyieithog (lefel 3 neu uwch).

**DP 5** a) % o staff cownteri ar lefel 3 neu uwch ar gownteri gorsafoedd heddlu wedi'u staffio ar draws ardal yr Heddlu.
b) % o staff ar lefel 3 neu uwch yn nerbynfeydd cyhoeddus yr Heddlu ar draws ardal yr Heddlu.

**Targed**
Dewis iaith mewn hyfforddiant a datblygiad.

**DP 6** % y digwyddiadau hyfforddi a datblygu a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Targed**
Dylai pob aelod o staff newydd sy'n ymuno â Heddlu Gogledd Cymru fedru dangos y lefel o allu angenrheidiol yn yr iaith Gymraeg erbyn diwedd eu cyfnodau prawf perthnasol yn unol â'r polisi cyfredol.

**DP 7** % y staff newydd a benodir sy'n medru dangos y lefel o sgiliau iaith angenrheidiol yn yr iaith Gymraeg erbyn diwedd eu cyfnodau prawf perthnasol.

**Gweithredu a Monitro'r Cynllun**

**Canllaw 8**

**Targed**
Cynyddu'r nifer o staff yn y gweithle sydd â'r gallu a'r parodrwydd i weithio trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg er mwyn cwrdd â'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

**DP 8** Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a/neu'r lefel briodol yn Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru.

**DP 9** % y staff sy'n gallu siarad Cymraeg

- fesul rhanbarth/adran
- yn ôl rheng/swydd/graddfa

**DP 10** Cyfatebiaeth rhwng % y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a'r % a recriwtiwyd i weithio i Heddlu Gogledd Cymru.

- yn ôl rôl Heddlu, staff yr Heddlu, gwirfoddolwyr a theulu estynedig yr Heddlu
- yn ôl rhanbarth/adran/yr Heddlu fel cyfangorff.

**Targed**
I ddiffinio lefelau cymhwysedd iaith Gymraeg penodol i rôl ar gyfer bob swydd sy'n gymesur â faint o gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd y mae'r swydd yn gofyn amdano (Lefelau 1 – 5).

**DP 11** % y swyddi o fewn Heddlu Gogledd Cymru sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd sy'n cydymffurfio â'r lefel cymhwysedd iaith Gymraeg y cytunwyd arni (Lefelau 1 – 5).

**DP 12** % y cwynion am weithrediad y Cynllun Iaith yr ymdriniwyd â nhw a arweiniodd at newid i bolisi/proses.

---

**Gofynion Statudol Eraill**

**Cyhoeddusrwydd – Adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

**Targed**
Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau penodol sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg er mwyn rhoi'r dewis o'u defnyddio i siaradwyr Cymraeg.

**DP 13** % o ddefnydd o wasanaethau iaith Gymraeg penodol
a) llinell iaith Gymraeg
b) recriwtiaid sy'n dewis cael eu cyfweliad terfynol trwy gyfrwng y Gymraeg

| SAFONAU GWASANAETHAU YN YR IAITH GYMRAEG |
| --- |
| **Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**<br>**Canllaw 6**<br>**Datganiad**<br>Bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio tuag at sicrhau dewis iaith yn ei holl brosesau recriwtio. Mewn cysylltiad â recriwtio swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu mae'r heddluoedd yng Nghymru yn disgwyl canlyniad trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref a chorff hyfforddi'r gwasanaeth heddlu canolog, sef y Coleg Plismona.<br>**Datganiad**<br>Bydd yr holl staff newydd a fydd yn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru yn medru dangos sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol wrth iddynt gael eu penodi, fel lleiafswm. |
| **Wyneb Cyhoeddus Heddlu Gogledd Cymru**<br>**Canllaw 7**<br>**Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad**<br>**Datganiad**<br>Bydd pob arwydd allanol a mewnol (gan gynnwys arwyddion dros dro) a fydd yn cael ei osod yn cydymffurfio â mesurau'r Cynllun Iaith. |
| **Gweithredu a Monitro'r Cynllun**<br>**Canllaw 8**<br>**Datganiad**<br>Bydd yr holl weithwyr newydd sy'n yn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u rhaglen sefydlu. |

# ATODIAD C Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg

**1. Fframwaith**

**1.1. Elfennau**

- Dangos sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol
- Dangos parodrwydd i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn y gweithle
- Deall Cymraeg
- Hwyluso dewis iaith i'r cwsmer
- Siarad Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg (lle bo hynny'n briodol)
- Gallu a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda'r cyhoedd

**1.2.** Bydd y lefelau'n rhoi syniad o allu'r unigolyn ar y pryd, gydag ystod yn dechrau gyda lefel 0 (dim sgiliau iaith Gymraeg) hyd at lefel 5 - 'hollol rugl'. (Yn gallu, yn hyderus ac yn fodlon defnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda'r cyhoedd).

**2. Eglurhad o'r Fframwaith Cymhwysedd:**

Mae pob lefel yn cynnwys datganiadau '*yn gallu*' sy'n:

- Diffinio lefel gallu o safbwynt yr hyn mae defnyddwyr yr iaith yn gallu ei wneud ar bob lefel o'r fframwaith
- Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall beth mae pob lefel yn ei olygu mewn perthynas â'r hyn y mae defnyddwyr yr iaith yn ei wneud go iawn.

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Heddlu | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewn swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd/ enwau personol neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau/ lleoliadau/ rhengoedd yn Gymraeg.<br>Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfodion sgwrs yn Gymraeg.<br>Yn gallu cyflwyno gwybodaeth elfennol e.e. gweinyddu syml neu dasgau bob dydd. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd.<br>Yn gallu derbyn a throsglwyddo negeseuon sydd angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd o fewn eu maes gwaith eu hunain yn ogystal â dadlau dros neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith am swyddi yn ogystal ag asesu pa mor addas ydynt. |
| **Dyletswyddau Swyddogion Heddlu** | Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy agor a chau sgwrs. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol.<br>Yn gallu dweud enwau lleoedd/enwau personol neu ar-wyddion Cym-raeg yn gywir. | Yn gallu deall hanfodion cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau. | Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod neu wrth roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau. | Yn gallu delio gyda'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg blismona/ dechnegol. | Yn gallu delio'n effeithiol gydag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu ddelio gyda gwrthdaro yn Gymraeg.<br>Yn gallu cyfweld neu holi yn Gymraeg wrth gynnal ymchwiliad. |
| **Derbynfa/Co wnter Gor-saf Heddlu/ Ar y ffôn** | Yn gallu cyfarch yn ddwyieithog mewn modd priodol i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a chaniatáu dewis iaith. | Yn gallu deall cais am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth drosglwyddo galwadau. | Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu nodiadau o wrando ar sgwrs Gymraeg. | Yn gallu delio'n effeithiol gydag ymholiadau.<br>Yn gallu deall pobl sy'n siarad mewn gwahanol dafodieithoedd. | Yn gallu delio gydag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd a delio'n hyderus â chwestiynau ymosodol. |

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Heddlu | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Cyhoeddus/Siarad â'r Cyfryngau** | Yn gallu cychwyn a gorffen cyfarfod ynghyd â chyfarch aelodau yn ddwyieithog. | Yn gallu cyflwyno eich hun ac eraill trwy ddefnyddio enw, rheng, swydd a lleoliad/ sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno yn rhannol Gymraeg gan droi at y Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, wrth ateb cwestiynau neu wrth ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau Cymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi at y Saesneg am dermau plismona neu dechnegol. | Yn gallu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu ymosodol yn Gymraeg gan gynnwys defnyddio gwybodaeth arbenigol. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml i gydweithwyr, megis ''Ga' i …. os gwelwch yn dda?' | Yn gallu ysgrifennu nodyn byr o gais i gydweithiwr neu gyswllt allanol. | Yn gallu ysgrifennu memo mewnol neu negeseuon e-bost anffurfiol, a delio gyda cheisiadau bob dydd. | Yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol gyda chymorth golygyddol. | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a chymryd cofnodion llawn a chywir yn ystod cyfarfodydd. |

# ATODIAD CH.

**Cynllun Gweithredu – Gweithio Tuag at Fod Yn Sefydliad Dwyieithog**

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **3** | **Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth** | | |
| **1** | 3.3 | Yr Adrannau a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i sicrhau bod holl waith yr Heddlu yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a'r Strategaeth Iaith. | Yn barhaus | CPSH; Penaethiaid yr Adrannau; Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **2** | 3.3 | Sicrhau bod polisïau newydd a'r rhai fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn cynnwys cymalau priodol fydd yn sicrhau cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith a'r Strategaeth Iaith. Monitro cydymffurfiad polisïau â'r Cynllun Iaith. | Yn barhaus | Rheolwr Polisi; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **3** | 3.3 | Prosiectau i ystyried anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg wrth lunio briff y prosiect. Cymalau priodol i gael eu cynnwys ym manyleb y prosiect i sicrhau ei fod yn cydymffurfio a'r Cynllun Iaith. Monitro cydymffurfiad â'r Cynllun Iaith trwy gydol y prosiect. | Yn barhaus | Pennaeth Newid, Gwasanaethau Corfforaethol; Rheolwyr Prosiectau |
| **4** | 3.4 | Yr Adrannau i enwebu aelod o'r tîm rheoli i fod yn gydlynydd lleol ar gyfer materion yr iaith Gymraeg er mwyn hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu timau a llenwi adroddiadau monitro lleol. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau |
| **5** | 3.5 | Sicrhau bod copi cyfoes o'r Cynllun Iaith a'r canllawiau newydd ar gael i'r holl staff trwy'r dulliau priodol, gan gynnwys Mewnrwyd yr Heddlu. | Yn barhaus | Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **4** | **Cyflwyno Gwasanaeth** | | |
| **6** | 4.4 | Sicrhau bod rhestrau cyfredol o siaradwyr Cymraeg ar gael at ddefnydd mewnol er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg a sicrhau bod staff yn gwybod sut i gael cefnogaeth pan fo'i angen. | Yn barhaus | Cydlynwyr Iaith Gymraeg yr Adrannau |
| **7** | 4.5 | Annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle fel iaith fusnes ac fel iaith gyfathrebu lle bo hynny'n ymarferol, ac annog siaradwyr Cymraeg i roi cefnogaeth i ddysgwyr. | Yn barhaus | CPSH; Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau; Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg yr Heddlu; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | **5** | **Safonau Gwasanaeth Cymraeg** | | |
| **8** | 5.1 | Sicrhau bod safon y gwasanaeth yn gyfartal yn y ddwy iaith. | Yn barhaus | CPSH; Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **9** | 5.3 | Annog siaradwyr Cymraeg yn yr Heddlu i ddrafftio dogfennau/llythyrau ayyb yn Gymraeg yn gyntaf, ac os bydd angen, i anfon drafftiau i'r Uned Gyfieithu ar gyfer eu gwirio a'u golygu/prawf ddarllen. | Yn barhaus | Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau; Yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **10** | 5.4 | Annog staff sydd yn medru'r Gymraeg, neu sydd yn dysgu, i wisgo bathodyn bach sy'n dangos eu gallu yn Gymraeg i'r cyhoedd. | Yn barhaus | Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau; Yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **11** | 5.6 | Cynnwys gwybodaeth am sefyllfa ieithyddol unrhyw ardal yng Ngogledd Cymru ym mhroffil rhawd pob Rheolwr Rhawd Gymunedol a Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu. Y wybodaeth hon i gael ei diweddaru pan fydd swyddog newydd yn dod yn gyfrifol am y Rhawd. Bydd cofnod o'r wybodaeth yn cael ei gadw yn y Rhanbarthau. | Yn barhaus | Arolygwyr Ardal Blismona leol |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **5** | **Safonau Gwasanaeth Cymraeg** | | |
| **12** | 5.9 | Annog Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghymru i rannu arfer da ac i gydweithio ar brosiectau er budd eu Cynlluniau Iaith eu hunain a chynnal Gweithgor Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru. | Yn barhaus | CPSH; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | **6** | **Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd yng Ngogledd Cymru** | | |
| **13** | 6.4 | Cadw cofnod cyfredol o enwau'r sawl sy'n dymuno derbyn gohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg. | Yn barhaus | Partneriaid Busnes yr Adrannau |
| **14** | 6.5 | Sicrhau bod manylion cyswllt staff mewn negeseuon e-bost yn gwbl ddwyieithog. | Yn barhaus | Partneriaid Busnes yr Adrannau; Cydlynwyr iaith Gymraeg yr Adrannau |
| **15** | 6.5 | Sicrhau bod yr holl fanylion safonol sydd yn ymddangos ar bapur pennawd yr Heddlu neu ar ffurf electronig neu ffacs a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn ddwyieithog. | Yn barhaus | Partneriaid Busnes Cyllid yr Adrannau; Dylunio a Gwasanaethau Argraffu |
| **16** | 6.6 | Rhoi gwybodaeth i staff ar sut i wneud defnydd cyflawn o wasanaethau'r Uned Gyfieithu. | Yn barhaus | Yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **17** | 6.7 | Enwebu staff penodol a fyddai'n elwa o gael CYSGLIAD neu unrhyw feddalwedd Gymraeg berthnasol arall a fyddai'n hwyluso gallu staff unigol i gynhyrchu gohebiaeth yn Gymraeg. iGrŵp i drefnu i'r staff hyn dderbyn y feddalwedd. | Yn barhaus | Rheolwyr Busnes adrannol/Rhanbarthol. Pennaeth iGrŵp |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **7** | **Cyfathrebu dros y ffôn** | | |
| **18** | 7.4 | Darparu cyfarwyddyd a threfnu hyfforddiant yn ôl yr angen i staff yn yr ystafell reoli ar sut i ateb yn briodol i alwadau ffôn, ac i fonitro safon y gwasanaeth. | Yn barhaus | Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Cefnogaeth Weithredol |
| **19** | 7.6 | Sicrhau bod staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn ymdrin â'r galwadau hynny'n unol â'r Cynllun Iaith ac unrhyw arweiniad perthnasol arall. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau |
| | **8** | **Cyfarfodydd cyhoeddus** | | |
| **20** | 8.3 | Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Heddlu neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn unrhyw gyfarfodydd neu gyflwyniadau allanol yn cynnig y dewis o roi gwasanaeth naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, neu'n hwyluso presenoldeb cynrychiolydd o'r Heddlu a all ymateb yn newis iaith y pwyllgor/ sefydliad/grŵp sydd yn estyn gwahoddiad. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **21** | 8.5 | Agor pob cyfarfod neu gynhadledd gyhoeddus â chyfarchiad dwyieithog, tynnu sylw at y ffaith bod gwasanaeth cyfieithu ar gael a gwahodd y sawl sy'n bresennol i gyfrannu yn eu dewis iaith. | Yn barhaus | Cadeirydd pob un o gyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau'r Heddlu a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | **9** | **Cyswllt arall â'r cyhoedd** | | |
| **22** | 9.1 | Sicrhau bod staff sydd yn gweithio wrth dderbynfeydd/cownteri gorsafoedd ac yn y dalfeydd yn cynnig ac yn hwyluso dewis iaith i'r cyhoedd mewn ffordd ragweithiol a bod staff yn ymateb yn gadarnhaol i gais am wasanaeth Cymraeg ac yn hwyluso'r broses os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **9** | **Cyswllt arall â'r cyhoedd** | | |
| **23** | 9.7 | Sicrhau bod staff y dalfeydd yn hysbysu unigolyn ar lafar o'i hawl i gael ei gyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â'i ddewis a bod cofnod yn cael ei wneud bod dewis iaith wedi cael ei gynnig a nodi ymateb yr unigolyn. Sicrhau bod y dewis iaith hwn yn cael ei drosglwyddo i bartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill fel rhan o gyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru i hwyluso dewis iaith o fewn y Sector Cyfiawnder Troseddol. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Plismona lleol; Pennaeth yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder; Adran y Prif Swyddog Gwybodaeth |
| | **10** | **Wyneb cyhoeddus yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | | |
| **24** | 10.1 | Sicrhau bod holl arwyddion a hysbysiadau'r Heddlu yn ddwyieithog a bod y fersiwn Gymraeg yn ymddangos naill ai uwchben neu i'r chwith i'r fersiwn Saesneg. Sicrhau bod unrhyw destun Cymraeg yn cael ei wirio gan Uned Gyfieithu'r Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Cydlynwyr Iaith Gymraeg yr Adrannau |
| **25** | 10.6 | Sicrhau bod holl anghenion cyfieithu'r Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan gynnwys taflenni, deunydd cyhoeddusrwydd a phamffledi swyddogol yn cael eu hanfon i'r Uned Gyfieithu cyn eu hargraffu neu eu cyhoeddi ar y Rhyngrwyd. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | **11** | **Cyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig** | | |
| **26** | 11.4 | Annog staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu eitemau at ddefnydd mewnol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith fusnes fewnol ac i fanteisio ar gyfleoedd i gynnwys y ddwy iaith wrth anfon negeseuon gwybodaeth o natur gyffredinol at staff | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Rhanbarthau/ Adrannau; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **13** | **Datganiadau i'r wasg** | | |
| **27** | 13 | Sicrhau y cedwir cofnod cyfredol o ddewis iaith cynrychiolwyr y wasg a'r cyfryngau a sicrhau bod swyddogion cyswllt â'r wasg rhanbarthol yn cael eu cynghori ynghylch hyn. | Yn barhaus | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol; Swyddfa'r Wasg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **28** | 13 | Adnabod a hyfforddi siaradwyr Cymraeg hyderus i gynrychioli'r Heddlu mewn cyfweliadau gyda'r cyfryngau Cymraeg. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Pennaeth Cyfathrebiadau Cyhoeddus |
| | **14** | **Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio** | | |
| **29** | 14.8 | Sicrhau bod unrhyw wybodaeth a fydd yn ymddangos ar wefan yr Heddlu/ Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ddwyieithog. | Yn barhaus | Pennaeth Cyfathrebiadau Cyhoeddus; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **30** | 14.9 | Annog staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i gynllunio'n ddwyieithog ac ystyried yr angen i ddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol yn y dylunio. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol; Swyddog Marchnata |
| **31** | 14.10 | Sicrhau bod unrhyw gorff neu grŵp fydd yn ymuno mewn partneriaeth â'r Heddlu/comisiynydd Heddlu a throsedd am resymau cyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | **15** | **Gweithredu'r polisi** | | |
| | **15** | **Cyflogaeth, recriwtio a hyfforddi** | | |
| **32** | 15 | Yr Heddlu i ddatblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar gyfer staff newydd a staff sefydlog a fydd yn cynnwys cynllunio a darparu hyfforddiant iaith briodol i lenwi bylchau sgiliau iaith yn yr Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **15** | **Cyflogaeth, recriwtio a hyfforddi** | | |
| **33** | 15.2 | Parhau i geisio recriwtio mwy o staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu sydd â'r sgiliau priodol eraill i gyflawni dyletswyddau'r swydd. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **34** | 15.2 | Sicrhau buddsoddiad priodol mewn ymgyrchoedd i recriwtio mwy o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a bod adnoddau staffio digonol ar gael i gyflawni'r nod. | Yn barhaus | CPSH; Comisiynydd Heddlu a Throsedd; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **35** | 15.2 | Parhau i sicrhau bod gan unrhyw aelod newydd o staff o leiaf rywfaint o sgiliau sylfaenol yn Gymraeg cyn ymuno â'r Heddlu a bod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu yn ystod cyfnodau prawf yn unol â'r polisi presennol. | Yn barhaus | CPSH; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **36** | 15.2 | Rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sianelu adnoddau ychwanegol i mewn i Hyfforddiant Iaith er mwyn hwyluso cyfleoedd cyfartal i bawb yng Nghymru gael eu dethol i weithio yng Ngwasanaeth yr Heddlu. | Yn barhaus | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **37** | 15.4 | Sicrhau bod unrhyw aelodau o staff sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg fel isafswm cyn eu penodi. | Yn barhaus | CPSH; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **38** | 15.5 | Ystyrir ei bod yn fater o arweinyddiaeth bod aelodau o staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg fel isafswm. Fel rhan o'n strategaeth sgiliau iaith ac mewn ymdrech i wella'r rôl fel y bont rhwng y Gymuned â'r Heddlu bydd yn ofynnol i bob aelod newydd ddangos y sgìl hwn. Cefnogir aelodaeth o staff swyddfa Heddlu a Throsedd i gyrraedd y lefel hon gan yr Heddlu a byddant yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. | Yn barhaus | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **15** | **Cyflogaeth, recriwtio a hyfforddi** | | |
| **39** | 15.7 | Chwilio am ffyrdd i ymestyn y ddarpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith ar gyfer staff fel rhan o unrhyw gwrs hyfforddi, yn enwedig mewn cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddi sydd â chyswllt rheolaidd â'r cyhoedd. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **40** | 15.7 | Bydd cydlynwyr cyrsiau hyfforddi sy'n cyfeirio at ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn sicrhau bod ymwybyddiaeth iaith ac ystyriaethau sensitifrwydd yn cael eu prif ffrydio i'r rhaglenni. Gellir cael cyngor a chymorth gan gynnwys negeseuon penodol ar y pwnc hwn drwy gysylltu ag Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg yr Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **41** | 15.7 | Sicrhau bod negeseuon ac ymarferion ynghylch y cyfrifoldeb a'r angen i gynnig dewis iaith yn cael ystyriaeth lawn yn y broses gynllunio a gwerthuso mewn perthynas ag unrhyw gyrsiau hyfforddi sy'n cyfeirio at ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bodlonrwydd cwsmeriaid a chydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **42** | 15.8 | Yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i barhau i weithio tuag at gydnabod gallu yn y Gymraeg fel sgìl neu gymhwysedd penodol. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **43** | 15.9 | Sicrhau bod ystyriaethau ieithyddol yn cael eu prif ffrydio i mewn i holl brosesau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol yr Heddlu. Rhan o hyn fydd cymryd perchnogaeth a goruchwyliaeth strategol o'r broses o adnabod a hysbysebu lefelau sgiliau iaith priodol ar gyfer yr holl broffiliau swydd (swyddi lle mae 'Cymraeg yn ddymunol' neu 'Cymraeg yn hanfodol') yn unol â'r broses sy'n cael ei mabwysiadu gan yr Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **15** | **Cyflogaeth, recriwtio a hyfforddi** | | |
| **44** | 15.9 | Sicrhau bod Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yr Adrannau'n ystyried anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth benderfynu pa staff sydd yn addas ar gyfer swyddi penodol. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **45** | 15.11 | Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael yr un statws ag unrhyw hyfforddiant arall yn yr Heddlu a bod prosesau adnabod anghenion hyfforddi staff yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial i ddewis a chefnogi staff i ddatblygu neu gadarnhau eu sgiliau iaith Gymraeg yn unol ag anghenion yr Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **46** | 15.2 | Annog a chefnogi holl staff yr Heddlu nad ydynt yn siarad Cymraeg sydd â chyswllt â'r cyhoedd i ddatblygu gallu sylfaenol yn Gymraeg, er mwyn cryfhau gallu'r Heddlu i ddangos cwrteisi ieithyddol. | Yn barhaus | CPSH; Penaethiaid Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg |
| **47** | 15.15 | Yr Heddlu i adolygu'r angen a'r galw am ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol drwy gyfrwng y Gymraeg i swyddogion ar brawf. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **48** | 15.16 | Cynnig dewis iaith i rai sy'n ymgeisio am swyddi a darparu'n briodol ar eu cyfer yn y prosesau dethol. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **49** | 15.16 | Yr Heddlu i weithio tuag at ddarparu dewis iaith i'r cyhoedd sydd yn mynychu canolfannau asesu er mwyn cael eu dewis i fod yn swyddogion heddlu. | Yn barhaus | CPSH; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| **50** | 15.16 | Yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i barhau i ofyn i'r Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref ddarparu prosesau dethol a dewis staff ac arholiadau dyrchafiad yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. | Yn barhaus | CPSH; Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **16** | **Trefn lywodraethol** | | |
| **51** | 16.2 | Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu prosiectau/polisïau sy'n cael eu cyflwyno i sylw Prif Swyddogion a/neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer derbyn sêl bendith yn datgan bod y cynllun/polisi yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol; Rheolwr Rheolaeth a Pholisïau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **52** | 16.5 | Cyfrifoldeb pob Pennaeth Adran yw dosbarthu manylion am y Cynllun a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gofynion. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **53** | 16.8 | Cynnal sesiwn ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith Gymraeg ar gyfer unrhyw brif swyddogion newydd/ aelodau newydd o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel rhan o'u cwrs cyflwyno. | Yn barhaus | CPSH; Comisiynydd Heddlu a Throsedd; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| | **17** | **Gwybodaeth am y Cynllun** | | |
| **54** | 17 | Darparu cyngor ac arweiniad i Brif Swyddogion, rheolwyr a staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith diwygiedig. | Yn barhaus | Pennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg |
| | **18** | **Gwasanaethau ar ran Heddlu Gogledd Cymru gan bartïon eraill** | | |
| **55** | 18.4 | Swyddogion cydlynu unrhyw brosiect ar y cyd ag asiantaeth/corff arall i sicrhau bod y prosiect hwnnw yn cydymffurfio â Chynllun Iaith yr Heddlu. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol; Pennaeth Newid; Rheolwyr Prosiectau |
| | **19** | **Monitro gweithrediad y Cynllun** | | |
| | **19.2** | **Polisïau a Gweithdrefnau** | | |
| **56** | 19.2 | Sicrhau bod unrhyw bolisïau newydd a pholisïau sydd yn derbyn adolygiad blynyddol yn nodi eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bod ffurflen yn cael ei llenwi i'r perwyl hwnnw fel rhan o'r broses gymeradwyo. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol; Rheolwr Rheolaeth a Pholisïau; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **19.3** | **Darparu Gwasanaeth** | | |
| **57** | 19.3 | Yr Adrannau i ddarparu adroddiadau rheolaidd i Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn unol â chais y cadeirydd neu ei ddirprwy, am sut mae eu gweithgareddau'n cydymffurfio a'r Cynllun Iaith. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **58** | 19.3 | Monitro cydymffurfiad yr Adrannau â'r Cynllun Iaith o ddydd i ddydd ac adolygu cynnydd y Cynllun Iaith yn rheolaidd. | Yn barhaus | Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **59** | 19.3 | Yr Adrannau i greu prosesau i sicrhau cydymffurfiad eu gweithdrefnau a gweithrediadau â'r Cynllun Iaith gan gynnwys enwebu aelod o'u tîm rheoli i weithredu fel cydlynydd lleol y Cynllun Iaith. Y person hwn i fod yn gyfrifol am lenwi a dychwelyd adroddiadau monitro i Bennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg/Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau |
| **60** | 19.4 | Sicrhau bod unrhyw ymchwil i fodlonrwydd y cyhoedd â'r gwasanaeth a geir gan yr Heddlu'n cynnwys cyfeiriad at y gallu i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | | **Delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg** | | |
| **61** | 19.6 | Prif ffrydio ystyriaethau am y Gymraeg a dewis iaith i'r cyhoedd yn y ddwy iaith swyddogol i mewn i holl systemau a phrosesau diogelu ansawdd yr Heddlu. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | | **Cyflogaeth** | | |
| **62** | 19.8 | Monitro cydymffurfiad Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yr Adrannau ag amcanion y Cynllun Iaith a chynhyrchu a darparu adroddiadau priodol am y sefyllfa staffio ar gais Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu/Comisiynydd Heddlu a Throsedd. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **20** | **Amserlen** | | |
| **63** | 20 | Cynnwys cyflawniad targedau'r Cynllun Iaith fel rhan o dargedau corfforaethol yr Heddlu a chyfeirio at ddatblygiadau a chyraeddiadau yn y Cynllun Iaith yn Adroddiadau Blynyddol yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chrynodebau perfformiad cyhoeddus. | O ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun | Comisiynydd Heddlu a Throsedd; CPSH |
| | **21** | **Asiantau a Chontractwyr** | | |
| **64** | 21 | Sicrhau bod unrhyw wasanaethau sy'n cael eu prynu/rheoli gan asiantaethau a chontractwyr allanol yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. | Yn barhaus | Pennaeth Gwasanaethau Busnes; Pennaeth yr Adran Gaffael; Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol |
| | **22** | **Sylwadau a chwynion am y Cynllun Iaith** | | |
| **65** | 22.1 | Sicrhau bod gwybodaeth am safonau gwasanaeth yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r drefn gwyno/y broses cyflwyno sylwadau ar gael i'r cyhoedd. | Yn barhaus | Yr Adran Safonau Proffesiynol; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **66** | 22.2 | Bydd unrhyw gwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg nad ydynt yn ymwneud â mater ymddygiad unigolyn yn cael eu cofnodi fel cwyn "Cyfeiriad a Rheolaeth". Bydd y gwyn yn cael ei chofnodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol. | Yn barhaus | Yr Adran Safonau Proffesiynol; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **67** | 22.3 | Sicrhau bod unrhyw sylwadau/cwynion gan y cyhoedd am safonau gwasanaeth yn Gymraeg yn dod i sylw Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg/Comisiynydd Heddlu a Throsedd. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Yr Adran Safonau Proffesiynol |
| | **23** | **Adrodd** | | |
| **68** | 23 | Paratoi adroddiadau monitro am y Cynllun Iaith i'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Iaith Gymraeg. | Yn flynyddol | Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |

| | Adran yn y Cynllun | Gweithredu | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | **24** | **Cyhoeddusrwydd i'r cynllun iaith gymraeg ac argaeledd gwasanaethau dwyieithog** | | |
| **69** | 24.1 | Sicrhau bod gwybodaeth am y Cynllun Iaith yn ogystal â chyngor ac arweiniad ar gael i staff ar Fewnrwyd yr Heddlu ac ar ffurfiau priodol eraill. | Yn barhaus | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg |
| **70** | 24.2 | Sicrhau y gellir gweld gwybodaeth am y Cynllun Iaith ar wefan yr Heddlu a gwefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a threfnu ymgyrchoedd priodol i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon. | Yn barhaus | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol; Pennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg; Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **71** | 24.2 | Gosod arwyddion yn nodi bod gwasanaeth dwyieithog ar gael mewn mannau cyhoeddus fel cownteri gorsafoedd Heddlu, derbynfeydd adeiladau a dalfeydd. | Yn barhaus | Penaethiaid yr Adrannau; Pennaeth Gwasanaethau Busnes |

# ATODIAD D
# Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police

**Grŵp Gwasanaethu Pobl - People Services Group**

**Codi'r Bar – Gallu llafar yn y Gymraeg – protocol Lefel 1, 2 a 3**

## 1. Penodi staff allanol (ar wahân i lanhawyr a phrentisiaid modern)

O **1 Ionawr 2008** ymlaen yn unol â Phrotocol Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru, disgwylir i bob swyddog ac aelod o staff a benodir yn allanol o ganlyniad i hysbysebion a gyhoeddwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ddangos sgiliau llafar sylfaenol yn y Gymraeg hyd at **Lefel 2** *cyn,* ac er mwyn, cael cynnig swydd. Cyn y gellir cadarnhau penodiad, ar ddiwedd y cyfnod prawf bydd yn rhaid i bob swyddog ac aelod o staff gyrraedd **Lefel 3**.

Daw'r ddwy lefel o'r Fframwaith Gallu yn y Gymraeg 5 pwynt safonol y mae'r Heddlu eisoes wedi'i fabwysiadu.

**Cymraeg Lefel 2** - bydd y lefel hon yn galluogi deiliaid swyddi i ddeall hanfodion ceisiadau gan y cyhoedd a'u cydweithwyr a rhoi a derbyn cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg.

**Cymraeg Lefel 3** - bydd y lefel hon yn galluogi deiliaid swyddi i ddeall ac ymateb i ymholiadau cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg, cymryd a throsglwyddo negeseuon a disgrifio pobl a lleoliad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid oes unrhyw ofyniad i ysgrifennu Cymraeg o fewn y protocolau hyn.

## 2. Penodiadau Glanhawyr a Phrentisiaid Modern yw'r unig eithriadau i'r uchod.

Bydd disgwyl i lanhawyr a phrentisiaid modern a benodir yn allanol o ganlyniad i hysbysebion a gyhoeddwyd ar neu ar ôl Ionawr 1af 2008 ddangos sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg hyd at Lefel 1 cyn, ac er mwyn cael eu penodi. Er na fydd yn ofynnol cyrraedd lefelau uwch yn unol â'r Protocol Iaith Gymraeg byddai'r Heddlu yn cefnogi ac yn annog datblygiad i lefelau uwch yn y swyddi hyn pe bai hynny'n ofynnol/pe ceid cais am hynny.

**Cymraeg Lefel 1** – bydd cyrraedd y lefel hon yn golygu y gall unigolion ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol ac ynganu enwau Cymraeg.

**Y rheswm dros roi'r Lefelau ar waith**

Mae 'codi'r bar' yn dangos lefel o ymrwymiad i, ymwybyddiaeth o, a sensitifrwydd tuag at y cymunedau Cymraeg a dwyieithog yn ardal Heddlu Gogledd Cymru ac mae cysylltiad amlwg rhwng hyn a meysydd sgiliau'r ADP (PDR) h.y. 'Parch tuag at Hil ac Amrywiaeth', 'Canolbwyntio ar y Gymuned a'r Cwsmer' a 'Chyfathrebu Effeithiol'.

**Cyfrifoldeb Deiliaid Swyddi**

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd/aelod o staff fydd cyrraedd y lefelau angenrheidiol; fodd bynnag byddant yn cael CD Cymraeg Lefel 1 a 2 yr Heddlu (pecynnau dysgu o bell) i'w helpu i gyrraedd y nod, ac ar ôl eu penodi byddant yn mynychu Cwrs Lefel 3 yr Heddlu.

Mae'r Heddlu wedi cytuno ar 9 diwrnod o hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 3 yn ystod y cyfnod prawf. Bydd dysgwyr yn cael mynychu yn ystod oriau dyletswydd. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan ddarparwr allanol ac Adran y Gymraeg Coleg Llysfasi sy'n gyfrifol amdano ar hyn o bryd.

## 3. Gwirfoddolwyr, Swyddogion Gwirfoddol a Chadetiaid

O **1 Ionawr 2008** ymlaen yn unol â Phrotocol Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru, disgwylir i bob gwirfoddolwr, swyddog gwirfoddol a chadét sy'n cael ei recriwtio'n allanol o ganlyniad i hysbysebion a gyhoeddwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ddangos sgiliau llafar sylfaenol yn y Gymraeg hyd at **Lefel 1** cyn, ac er mwyn, cychwyn ar eu dyletswyddau.

Er na fydd yn ofynnol cyrraedd lefelau uwch yn unol â'r Protocol Iaith Gymraeg byddai'r Heddlu yn cefnogi ac yn annog datblygiad i lefelau uwch yn y swyddi hyn pe bai hynny'n ofynnol/pe ceid cais am hynny.

**Cymraeg Lefel 1** – bydd cyrraedd y lefel hon yn golygu y gall unigolion ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol ac ynganu enwau Cymraeg

## 4. Cymhwyster ar gyfer dyrchafiad - mewnol

O Ionawr 1af 2008 ymlaen bydd disgwyl i bob swyddog heddlu ac aelod o staff yr heddlu ddangos sgiliau llafar Lefel 2 yn y Gymraeg cyn y gellir eu dyrchafu. Bydd yr ymgeisydd yn cael ei brofi cyn unrhyw gyfweliad 'dyrchafu'.

Diffinnir dyrchafiad ar gyfer staff yr heddlu fel 'Unrhyw swydd y mae'r unigolyn wedi gwneud cais llwyddiannus amdani ac sy'n golygu codiad mewn graddfa gyflog.

Nid oes unrhyw ofyniad i ysgrifennu Cymraeg i ddibenion y protocol hwn.

Cyfrifoldeb yr aelod o staff fydd cyrraedd Lefel 2, fodd bynnag byddant yn cael CD Cymraeg Lefel 1 a 2 yr Heddlu (pecynnau dysgu o bell) a chwrs Cymraeg Lefel 2 4 diwrnod i'w helpu i gyrraedd y nod. Bydd yn bosibl mynychu'r hyfforddiant hwn yn ystod oriau dyletswydd. Bydd swyddogion/staff hefyd yn cael gwybodaeth am gyrsiau sydd ar gael yn y gymuned a chyfleoedd dysgu eraill.

Daw'r Lefel 2 hwn o'r Fframwaith Gallu yn y Gymraeg 5 pwynt safonol y mae'r Heddlu eisoes wedi'i fabwysiadu. Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd yw'r gallu i gyfarch yn Gymraeg, defnyddio sgiliau Cymraeg llafar sylfaenol a'r gallu i ynganu enwau lleoedd yn gywir. Mae'n sicrhau lefel o ymrwymiad i, ymwybyddiaeth o, a sensitifrwydd tuag at y cymunedau Cymraeg a dwyieithog yn ardal Heddlu Gogledd Cymru.